

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU – TACSIS A MATERION ERAILL
(ANSTATUDOL)**

**a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron ac o bell drwy fideo gynadleda ddydd Iau, 05 Hydref 2023**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), y Cynghorwyr Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan a John Roberts

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Gareth Lloyd

Swyddogion yn bresennol: Mrs Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol - Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad; Miss Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thwyddedu; Mr Gareth Rees, Uwch Swyddog Trwyddedu; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Democritaidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democritaidd a Safonau

(10:05am-11:20am)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Wyn Evans a Caryl Roberts am na fedrent ddod i'r cyfarfod

2 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Dim.

3 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 yn gywir.

Materion yn codi

Dim.

4 Diweddariad Cyffredinol

Ystyriwyd y diweddariad cyffredinol ynghylch tacsis a materion eraill (Anstatudol). Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn hysbysu'r Aelodau o waith yr Adain Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

- Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru)
- Ymgynghoriad – Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru.
- Wythnos Drwyddedu Genedlaethol 2023 - 12-16 Mehefin 2023

Cynllun “Dywedwch Wrthym Unwaith” y Llywodraeth a oedd bellach yn cynnwys trwyddedau a hawlenni.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD:

(i) i nodi'r adroddiad er gwybodaeth; ac

(ii) i groesawu cynllun “Dywedwch Wrthym Unwaith” Wythnos Drwyddedu Genedlaethol 2023 (12-16 Mehefin 2023) a oedd bellach yn cynnwys trwyddedau a hawlenni gan y byddai hyn yn lleihau biwrocratiaeth yn y system.

Hefyd, awgrymodd yr Aelodau y dylai swyddogion y gwasanaeth ystyried cynnal eu harchwiliadau o fusnesau ar y cyd, pe byddai unrhyw fusnes yn y Sir yn gofyn am hynny. Dywedwyd bod hyn wedi'i wneud yng nghyswllt rhai archwiliadau, ac y byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn y dyfodol.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol) a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____